pensaernïaeth **seven**



# Clwb Criced Harrogate yn cychwyn ar safle

Mae Seven wrth ein boddau bod gwaith wedi dechrau ar safle pafiliwn newydd Clwb Criced Harrogate a Chriced Merched Swydd Efrog.

Mae adeilad y pafiliwn newydd i fod ar gael i'w ddefnyddio erbyn dechrau tymor criced 2011 a bydd yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer 4 tîm a dyfarnwyr, criced dynion neu ferched, ar gaeau wedi'u lleoli i'r gogledd ac i'r de o'r adeilad.

Bydd yna ardal lluniaeth ar ganol y llawr gwaelod ar gyfer gwylwyr a darperir te gemau ac ardal gymdeithasu llawr cyntaf ynghyd ag orielau gwylwyr yn edrych i lawr ar y ddau faes. Cynllunnir y pafiliwn yn symetraidd wedi'i gladio â chedrwydd gyda godre lliw gwyn. Mae dewis deunyddiau'n ofalus, dulliau adeiladu aer-dynn a bargod ymestynnol, i oresgyn gormod o heulwen a llewyrch, yn nodweddion allweddol o'r dyluniad.

Mae cydymffurfio gyda safonau dylunio ECB wedi bod yn ystyriaeth bwysig o'r cychwyn ac wedi peri gwerthfawrogiad drylwyr o anghenion dylunio'r cyrff criced a deialog reolaidd gyda chynrychiolydd enwebedig ECB.

Mae atebiad o strwythur ffrâm bren wedi'i brofi'n economaidd ac yn addas iawn ar gyfer prosiect o'r maint hwn ac wedi llwyddo i bontio y gwahanol amgylcheddau a chyfnodau o ddefnydd rhwng llawr gwaelod a llawr cyntaf yr adeilad. Mae gwaelod trwm yr adeilad yn ymateb yn dda i ddefnydd achlysurol y stafelloedd newid, tra gellir twymo adeiledd llawr cyntaf ffrâm goed ysgafnach yn gyflym ac effeithiol i ddarparu ardal gyfforddus i ymlacio a gwylio gemau.




Manchester Studio
+44 (0) 845 000 777 1

Harrogate Studio
+44 (0) 845 000 777 2

Wales Studio
+44 (0) 845 000 777 3

E-mail: ian.chapman@sevenarchitecture.co.uk